**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A465 (CYLCHFAN Y RHIGOS, RHONDDA CYNON TAF I GYFNEWIDFA ABERDULAIS, CASTELL-NEDD PORT TALBOT) (GWAHARDD CERBYDAU, BEICWYR A CHERDDWYR DROS DRO) 2022**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A465 neu gerllaw iddi rhwng Cylchfan y Rhigos, Rhondda Cynon Taf a Chyfnewidfa Aberdulais, Castell-nedd Port Talbot.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith), beiciwr a cherddwr rhag mynd ar y darn o'r A465 a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill yn yr Atodlen hefyd.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau dros dro, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn dod i rym ar 27 Ebrill 2022 ac yn weithredol yn ysbeidiol dros nos (20:00 o'r gloch – 06:00 o'r gloch) am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf. Pan fo'n ymarferol, bydd hysbysiad ynghylch cau'r ffordd yn cael ei arddangos tuag wythnos ymlaen llaw.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A465 TRUNK ROAD (RHIGOS ROUNDABOUT, RHONDDA CYNON TAFF TO ABERDULAIS INTERCHANGE, NEATH PORT TALBOT) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES, CYCLISTS & PEDESTRIANS) ORDER 2022**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A465 trunk road between Rhigos Roundabout, Rhondda Cynon Taff and Aberdulais Interchange, Neath Port Talbot.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services and for the works), cyclists and pedestrians from proceeding on the lengths of the A465 described in the Schedule to this Notice. The alternative routes are also described in the Schedule.

The temporary prohibitions, which will be signed accordingly, are expected to come into force on 27 April 2022 and operate intermittently overnight (20:00 hours – 06:00 hours) for a maximum duration of 18 months. Where practical, notice of closures will be displayed approximately one week in advance.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

**YR ATODLEN**
**Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro a Llwybrau Eraill**

1. Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin yr A465 sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan y Rhigos hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Glyn-nedd.

2. Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain yr A465 (gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyfnewidfa Glyn-nedd) sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyfnewidfa Glyn-

**SCHEDULE**
**Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists & Pedestrians and Alternative Routes**

1. The length of the A465 westbound carriageway that extends from its junction with the western side of Rhigos Roundabout to the nosing of the westbound entry slip road at Glynneath Interchange.

2. The length of the A465 eastbound carriageway (including the eastbound entry slip road at Glynneath Interchange) that extends from the nosing of the eastbound exit slip road at Glynneath Interchange to

nedd hyd at ei chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan y Rhigos.

Y llwybr arall i draffig sy'n teithio tua'r gorllewin yw mynd ar yr A4061 tua'r gorllewin i Gylchfan Ystad Ddiwydiannol Hirwaun, ar Rhigos Road, Merthyr Road, Aberdare Road a'r B4242 High Street tua'r gorllewin a'r A4109 tua'r de i Gyfnewidfa Glyn-nedd: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain

3. Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin yr A465 (gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Glyn-nedd) sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Glyn-nedd hyd at ei chyffordd ag ochr ddwyreiniol Cylchfan Cwm-gwrach.

4. Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain yr A465 sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ddwyreiniol Cylchfan Cwm-gwrach hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyfnewidfa Glyn-nedd.

Y llwybr arall i draffig sy'n teithio tua'r gorllewin yw mynd ar yr A4109 tua'r gogledd a'r B4242 tua'r gorllewin i Gylchfan Cwm-gwrach: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain.

5. Y darn o'r A465 sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan Cwm-gwrach hyd at ei chyffordd ag ochr ddwyreiniol Cylchfan Resolfen.

Y llwybr arall i draffig sy'n teithio tua'r gorllewin yw mynd ar y B4242 tua'r gogledd i Gyffordd Aberpergwm, y B4242 tua'r gorllewin a'r B4434 tua'r de i Gylchfan Resolfen: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain.

6. Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin yr A465 sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan Resolfen hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Aberdulais

7. Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain yr A465 (gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r dwyrain) sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Aberdulais hyd at ei chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan Resolfen.

Y llwybr arall i draffig sy'n teithio tua'r gorllewin yw mynd ar y B4434 tua'r gogledd, y B4242 tua'r gorllewin i Gyffordd Ynysygerwn a'r A4109 tua'r de-orllewin i Gyfnewidfa Aberdulais: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain.

its junction with the western side of Rhigos Roundabout.

The alternative route for westbound traffic is via the westbound A4061 to Hirwaun Industrial Estate Roundabout, westbound Rhigos Road, Merthyr Road, Aberdare Road and B4242 High Street and southbound A4109 to Glynneath Interchange: vice versa for eastbound traffic.

3. The length of the A465 westbound carriageway (including the westbound entry slip road at Glynneath Interchange) that extends from the nosing of the western exit slip road at Glynneath Interchange to its junction with the eastern side of Cwmgwrach Roundabout.

4. The length of the A465 eastbound carriageway that extends from its junction with the eastern side of Cwmgwrach Roundabout to the nosing of the eastbound entry slip road at Glynneath Interchange.

The alternative route for westbound traffic is via the northbound A4109 and westbound B4242 to Cwmgwrach Roundabout: vice versa for eastbound traffic.

5. The length of the A465 that extends from its junction with the western side of Cwmgwrach Roundabout to its junction with the eastern side of Resolven Roundabout.

The alternative route for westbound traffic is via the northbound B4242 to Aberpergwm Junction, westbound B4242 and southbound B4434 to Resolven Roundabout: vice versa for eastbound traffic.

6. The length of the A465 westbound carriageway that extends from its junction with the western side of Resolven Roundabout to the nosing of the westbound entry slip road at Aberdulais Interchange.

7. The length of the A465 eastbound carriageway (including the eastbound entry slip road) that extends from the nosing of the northbound exit slip road at Aberdulais Interchange to its junction with the western side of Resolven Roundabout.

The alternative route for westbound traffic is via the northbound B4434, westbound B4242 to Ynysygerwn Junction and south-westbound A4109 to Aberdulais Interchange: vice versa for eastbound traffic.